# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013** |
| Amser: | **09:30 – 12:25** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_04_12_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mick Antoniw**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**Julie Morgan**<br>**William Powell**<br>**Antoinette Sandbach**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Alun Davies, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**<br>**Rhodri Asby, Llywodraeth Cymru**<br>**Andy Fraser, Llywodraeth Cymru**<br>**Julia Hill, Llywodraeth Cymru**<br>**Nia James, Llywodraeth Cymru**<br>**Fiona Leadbitter, Llywodraeth Cymru**<br>**Jasper Roberts, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Naomi Stocks (Ail Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)
Nia Seaton (Ymchwilydd)
Chloe Corbyn (Ymchwilydd)

## 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Yn absenoldeb Dafydd Elis-Thomas, etholwyd William Powell yn Gadeirydd dros dro.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 - 7

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig.

## 4 Bil yr Amgylchedd - Papur Gwyn: Papur briffio ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

4.1 Rhoddodd Andy Fraser gyflwyniad ar y cynigion yn y Papur Gwyn.

4.2 Atebodd y swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 5 Ymchwiliad i wastraff ac adnoddau - trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad

5.1 Oherwydd y nifer fach o ymatebion a gafwyd, cytunodd y Pwyllgor i beidio â chynnal ymchwiliad i wastraff ac adnoddau, ond i drafod y pwnc mewn sesiwn graffu yn y dyfodol gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Dŵr

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## 7 Blaenraglen waith - Gwanwyn 2014

7.1 Trafododd y Pwyllgor y rhaglen waith a chytuno arni.

## 8 Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) - Trafodaeth gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

8.1 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan y Pwyllgor ar y canllawiau drafft i'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru).

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog unwaith y byddai'r Aelodau wedi cael cyfle i drafod y canllawiau drafft yn fanylach.

## 9 Papurau i'w nodi

9.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

**Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru): Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

9.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**Llythyr gan y Llywydd - Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau**

9.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.